



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

Mehfin 10 2010

Llwyddiant cynllun peilot prawf gwaed i ganfod clefyd y galon

Cafodd prawf gwaed newydd i feddygon teulu ei ddefnyddio yn eu meddygfeydd i ddiystyru methiant y galon, ei dreialu'n llwyddiannus yng Ngwynedd ac Ynys Môn

Mae cleifion sydd ag amheuaeth o fethiant y galon fel arfer yn cael eu cyfeirio i'r ysbyty am ecocardiogram (ECG) i chwilio am guriad calon afreolaidd. Mae'r prawf newydd yn edrych ar lefelau hormon o'r enw Natriuretic Peptid (NP), sy'n arwydd clir o fethiant y galon.

Pan fydd lefel isel o NP yn y gwaed, gall meddygon teulu ddiystyru diagnosis o fethiant y galon yn ddiogel, ond mae lefelau uwch yn awgrymu diagnosis o un ai fethiant y galon neu gyflwr cardiaidd sylweddol arall.

Golyga hyn mai prawf gwaed yw'r unig beth mae ar lawer o bobl ei angen i ddiystyru methiant y galon. Yn ogystal â bod yn fwy cyfleus i gleifion, mae'r prawf newydd yn rhoi canlyniad yn gynt, gan olygu llai o aros a phoeni, ac mae'n rhatach.

Yn ystod y treial, profwyd 500 o gleifion ac roedd canlyniad prawf gwaed tua 300 ohonynt yn normal, gan gadarnhau nad oedd arnynt angen profion ECG pellach a'r straen o apwyntiadau clinig ychwanegol.

Mae Dr Graham Thomas yn Feddyg Teulu gyda diddordeb arbennig mewn cardioleg ac ecocardiograffi cymunedol. Dywedodd:

"Mae prawf gwaed Natriuretic Peptid (NP) yn ffordd syml o gynyddu effeithlonrwydd gwasanaeth diagnostig methiant y galon cymunedol yn sylweddol. Mae'n anodd meddwl am unrhyw ddatblygiad arall mewn gwasanaeth sydd â chymaint o fudd i gleifion oherwydd gellir tawelu meddwl y mwyafrif ohonynt yn syth nad oes ganddynt gyflwr sy'n peryglu bywyd, ac i glinigwyr sy'n gallu gweithio'n llawer mwy effeithiol."

Gellir gofalu am y mwyafrif o gleifion sydd â lefelau NP normal yn y feddygfa, heb fod angen cyfeiriad pellach. Mae gan y rhai hynny sydd â lefelau ychydig yn uwch ac sy'n cael ecocardiograffi, fethiant cardiaidd ysgafn, er bod rhai yn cael diagnosis o achos difrifol gydag amhariad cardiaidd difrifol.

Cynhelir y gwaith mesur lefelau Natriuretic Peptid yn adran Biocemeg Glinigol Ysbyty Gwynedd Bangor. Dywedodd Avril Wayte, Biocemegydd Ymgynghorol ac

Arweinydd Clinigol ar gyfer Biocemeg Glinigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

“Labordy Ysbyty Gwynedd yw’r cyntaf yng Nghymru i gynnig y prawf hwn yn y ffordd yma, ac mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnig y prawf i feddygon teulu yng Nghonwy, gyda’r posibilrwydd o ymestyn y gwasanaeth i Ogledd Cymru gyfan cyn bo hir.

“Mae’r prawf ei hun yn llawer drytach na’r rhai a wneir yn y labordy fel arfer, ond mae’r budd i gleifion a’r arbedion a wneir drwy leihau’r angen am ecocardiogramau yn golygu ei fod yn ddatblygiad ardderchog. Mae’n enghraifft dda o sut gall labordai a meddygon gydweithio i wella gofal cleifion.”

DIWEDD

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Trystan Pritchard ar (01248) 384 938.



Llun: Eluned Roberts, Uwch Wyddonydd Biofeddygol yn cynnal y prawf yn Ysbyty Gwynedd.

Photo: Eluned Roberts, Senior Biomedical Scientist performs the test at Ysbyty Gwynedd.

June 10 2010

Blood test pilot to identify heart disease proves successful

A new blood test that GPs can use in their surgeries to rule out heart failure has been successfully piloted in Gwynedd and Anglesey

Patients with suspected heart problems are usually referred to a hospital for an echocardiogram (ECG), to look for irregularities in the heartbeat. The new test looks at the levels of a hormone called Natriuretic Peptides (NP) which is known to be a clear indicator of heart failure.

Where there are low levels of NP in the blood GPs can safely discount a diagnosis of heart failure, while raised levels suggest the diagnosis of either heart failure or another significant cardiac condition.

This means that for many people a blood test is all that is needed to rule out heart failure. As well as being more convenient for patients, the new test provides a quicker result, saving them from an anxious wait, and is less expensive to carry out.

During the trial, 500 patients were tested and around 300 had normal blood test results, confirming that they didn't need further ECG tests and avoiding the stress of extra clinic appointments.

Dr Graham Thomas is a General Practitioner with a special interest in community cardiology and echocardiography. He said:

“Natriuretic peptide (NP) blood testing is a simple way to dramatically increase the effectiveness of a community based heart failure diagnostic service. It is difficult to think of any other service development that has such benefit both to patients, most of whom can quickly be reassured that they do not have a life threatening condition, and to clinicians who can work far more effectively.”

Most patients with normal NP levels can be cared for in General Practice without further referral. Those with mildly raised levels who do undergo echocardiography typically have mild cardiac failure although some are diagnosed as serious cases with severe cardiac impairment.

The measuring of Natriuretic Peptides levels is being carried out at the department of Clinical Biochemistry at Ysbyty Gwynedd in Bangor. Avril Wayte Consultant Biochemist and Clinical Lead for Clinical Biochemistry at the Betsi Cadwaladr University Health Board said:

“Ysbyty Gwynedd's laboratory is the first in Wales to offer this test in this way and the Health Board already plans to offer the test to GPs in Conwy with the potential to expand the services to cover the whole of North Wales in the near future.

“The test itself is far more costly than those usually performed at the laboratory but the benefits for patients and the savings that can be made by reducing the need for echocardiograms mean it is an excellent development. It is a good example of how laboratories and doctors can work together to improve patient care”

ENDS

For more information, contact Trystan Pritchard on (01248) 384 938